ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

Hyfforddiant E-ddysgu i Lywodraethwyr Ysgol

Cynghrair o 6 awdurdod lleol yw ERW a reolir gan gyd-bwyllgor cyfansoddiadol cyfreithiol.
Y nod yw gweithredu strategaeth a chynllun busnes rhanbarthol cytunedig a chefnogi gwelliant ysgolion.

ERW is an alliance of 6 local authorities governed by a legally constituted joint committee.
Its aim is to implement the agreed regional strategy and business plan to support school improvement.

Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working
www.erw.org.uk

Hyfforddiant E-ddysgu i Lywodraethwyr Ysgol

Mae darparu hyfforddiant statudol ac anstatudol yn faes blaenoriaeth yng Nghynllun Busnes presennol ERW. Mae Grŵp Cymorth i Lywodraethwyr ERW wedi blaenoriaethu hyfforddiant fel elfen allweddol o weithio rhanbarthol ac yn y flwyddyn bresennol mae'r grŵp wedi rhannu ei raglenni hyfforddiant, gan ddatblygu rhaglen ledled y rhanbarth.

Mae llawer o'r llywodraethwyr wedi cael anhawster cael mynediad i'r hyfforddiant o achos ymrwymiadau personol ac mae hyn yn achosi problemau o ran cwblhau elfennau gorfodol yr hyfforddiant. Ar hyn o bryd mae un model yng Nghymru sy'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth Cymru ac mae ar gael yn ddwyieithog. Mae'r model hwn wedi'i ddatblygu gan Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru. (Mae cwmni cenedlaethol arall o'r DU yn bwriadu datblygu ei raglen ei hun, ond hyd yn hyn nid yw wedi cwblhau'r gwaith ac mae wedi cyflwyno costau dangosol i gyrff llywodraethu sy'n uwch o lawer na'r darparwr argymelledig.)

Mae Grŵp Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru wedi gweld samplau o'r ddau ac o'r herwydd mae grŵp Cymorth i Lywodraethwyr ERW yn argymell ein bod yn prynu'r modiwlau E-ddysgu a gynhyrchir gan Cynnal. Mae'r modiwlau hyn wedi'u datblygu gan Bartneriaeth Cymorth i Lywodraethwyr Gogledd Cymru a Phowys, gyda mewnbwn llawn gan y Grwpiau Cymorth i Lywodraethwyr.

Dyma'r amcanion gwasanaeth:

- Darparu mynediad i fodiwlau E-ddysgu sy'n ategu'r gofynion hyfforddiant statudol ac anstatudol i Lywodraethwyr Ysgol
- Sicrhau bod modiwlau hyfforddiant yn cael eu datblygu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru
- Sicrhau bod yr holl hyfforddiant ar gael yn ddwyieithog trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn unig

Mae'r modiwlau presennol yn cwmpasu:

- Rôl y Cadeirydd
- Rôl y Clerc
- Deall Data Perfformiad Ysgolion
- Cynefino i lywodraethwyr newydd

Mae bwriad i ddatblygu modiwlau pellach ac ymrwymiad i gadw'r modiwlau wedi'u diweddaru ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol. Mae'r gwasanaeth, a fydd ar gael i'r holl Lywodraethwyr drwy gyfrinair, yn cael ei fonitro'n lleol ac ystyrir bod cwblhad yn gyfystyr

ag ymgymryd â'r hyfforddiant statudol gofynnol yn y maes hwnnw.

Mae'r costau i bob awdurdod yn ddeublyg:

1. Un ffi brynu nad oes modd ei had-dalu o £1000 fesul Awdurdod Lleol
2. Tâl blynyddol o £0.50 y llywodraethwr, gyda'r awdurdod yn prynu'r nifer mwyaf posibl o drwyddedau gan gyfateb i gyfanswm y swyddi llywodraethwyr.

Mae'r grŵp Cymorth i Lywodraethwyr wedi cael cadarnhad, yn dibynnu ar bryniant y consortiwm cyfan, y cyllidir y pryniant cychwynnol o £1,000 fesul Awdurdod Lleol. Mae hyn o dan drothwy caffael ERW gan fod un o'n hawdurdodau lleol (Powys) wedi cyfrannu at ei ddatblygiad. Mae arfer da yn cael ei rannu'n fewnol yn y rhanbarth drwy hyn.

Mae cadeirydd y grŵp Cymorth i Lywodraethwyr yn ymgynghori â Cynnal ynghylch lleoli'r modiwlau ar wefan ERW, gan gael mynediad drwy'r un safle.

Amcangyfrif o'r gost flynyddol fesul Awdurdod Lleol ar sail nifer y swyddi llywodraethwyr:

Awdurdod Lleol	**Nifer y Swyddi Llywodraethwyr**	**Tâl Blynyddol o £0.50 fesul Swydd Llywodraethwr**
Powys	1,283	642
Ceredigion	707	354
Sir Benfro	956	478
Sir Gaerfyrddin	1,568	784
Abertawe	1,359	680
Castell-nedd Port Talbot	1,092	546
Pob Un	6965	£3,483

Argymhelliad

Argymhelliad y Grŵp Cymorth i Lywodraethwyr yw bod y Bwrdd Gweithredol yn cymeradwyo prynu'r Hyfforddiant E-ddysgu i Lywodraethwyr er mwyn ei roi ar waith ar draws y rhanbarth o fis Medi 2015 ymlaen. Awgrymir bod ERW yn talu'r un taliad o £6,000 yn ganolog (sylwer mai £5,000 fyddai'r cyfanswm gan fod Powys wedi ei brynu'n barod).